

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 5ed Chwefror 2020 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, A. R. James, S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Ms V. Roberts, T. Thomas, R. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

50. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs P. M. Jones, Ms J. L. McAlpine, P. Prendergast a Miss S. L. Roberts.

51. MYNEGAI AMDDIFADIAD LLUOSOG CYMRU (WIMD)

Dywedodd Clerc y Dref nad oedd Ms Judith Greenhalgh wedi cyrraedd eto ac awgrymodd dychwelyd at yr eitem uchod unwaith y byddai wedi cyrraedd.

PENDERFYNWYD dychwelyd at yr eitem yn ddiweddarach ar y rhaglen pan fo modd.

52. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – IONAWR 2019

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
908	BT	104.15	Rhentu Llinell
909	BT	396.04	Rhentu Llinell a Galwadau
907	Shire Leasing	337.33	Prydles System Ffôn Avaya taliad Ch 4 19/20
910	HSBC	9.70	Taliadau Banc 17/11/19 - 16/12/19
911	Gunsmoke Communications	1,440.00	Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Rhagfyr 2019
912	Staff Cyngor Tref y Rhyl	7,142.52	Cyflogau Staff Ionawr 2020
913	CThEM	2,743.31	Didyniadau PAYE Rhagfyr 2019
914	Cyngor Sir y Fflint	4,290.48	Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Rhag 2019
716	Cyngor Sir Ddinbych	723.00	TANC ar gyfer swyddfeydd Ffordd Wellington – Taliad 10 o 10
723	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	916.67	Swyddog Apelio Rhan-amser – Taliad 10 o 12

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
926	Cyngor Sir Ddinbych	32,622.00	Cyfraniad i Barc Dwr y Rhyl - 3 o 3 2019/20
928	Sage & CO	93.00	Ffioedd Cyflogres Hydref i Ragfyr 2019
731	CAB	2,000.00	Swyddog Arbed Ynni – taliad 4 o 4
	Cyfanswm taliadau	£52,818.20	

Categori	Disgrifiad	Swm
Llog a dderbyniwyd	Cyfrif Santander 31 Day Notice	41.40
Llog a dderbyniwyd	HSBC 7 Day Money Market	23.02
Llog a dderbyniwyd	HSBC 7 Day Money Market	22.64
Llog a dderbyniwyd	HSBC 7 Day Money Market	22.19
TAW	Ad-daliad CThEM ar gyfer Chwarter 3 (Hyd-Rhag 2019)	1,326.43
Llog a dderbyniwyd	HSBC 7 Day Money Market	34.52
Llog a dderbyniwyd	HSBC 7 Day Money Market	33.38
Codi Arian – Maer	Casgliadau Elusen y Maer Rhagfyr 2019	421.12
Codi Arian – Maer	Noson Elusen Pysgod a Sglodion – gwerthiant tocynnau	60.00
	Cyfanswm incwm	1,984.70

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.

53. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Disgrifiad o'r Gwasanaeth	Swm £
927	NMWATC	Cinio 3 cynrychiolydd cyfarfod 17/01/2020	48.00
929	Cyngor Sir Ddinbych	Bracedi Profi Straen a thrwsio goleuadau	3,326.28
930	Cyngor Sir Ddinbych	Delio gyda blwch trydan yn crogi	27.94
931	T.R. Electrical Services	Profion PAT	92.00
932	Proarb Ltd	Coeden Nadolig 2019	1,680.00
933	Y Cyngor E Chard	Lwfans Maer 19/20 –	433.00

		taliad 3 o 3	
934	Y Cyngh D King	Lwfans Dirprwy Faer 19/20 – Taliad 3 o 3	133.00
935	Y Cyngh E Chard	Lwfans Uwch Aelodau 19/20 – taliad 3 o 3	167.00
936	Y Cyngh D King	Lwfans Uwch Aelodau 19/20 – Taliad 3 o 3	167.00
937	Cyngor Tref Prestatyn	2 x Docyn i Ddigwyddiad San Ffolant y Maer	20.00
938	Eisteddfod yr Urdd	Hysbyseb ar gyfer digwyddiad – Pafiliwn y Rhyl ym mis Chwefror 2020	50.00
944	Cyferif Elusen Rhuddlan	2 x docyn Digwyddiad Elusen y Maer 15/02/20	40.00
Cyfanswm Atodlen B			£6,184.22

Taliad mewn argyfwng - Taleb **927** – roedd angen talu am y cinio cyn y digwyddiad.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.

PENDERFYNWYD YMHELLACH atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Clerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.

54. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDI – EBRILL-RHAGFYR 2019

Ymhellach i gofnod rhif 73 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Hydref 2019, cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn nodi dychweliad o £1,437 ar fuddsoddiadau hyd at 31ain Rhagfyr 2019 gyda £463 pellach yn cael ei ddisgwyl erbyn 31ain Mawrth 2020.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

55. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2020/21

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r strategaeth.

56. MYNEGAI AMDDIFAEDD LLUOSOG CYMRU (WIMD)

Ymhellach i gofnod rhif 98 cyfarfod a cyngor a gynhaliwyd ar 18fed Rhagfyr 2019, croesawodd y Cadeirydd Ms Judith Greenhalgh (Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych) a Ms Nicola Kneale (Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol Cyngor Sir Ddinbych) i'r cyfarfod a gwahoddodd nhw i annerch y cynghorwyr.

Cychwynnodd Ms Greenhalgh trwy ddweud ei bod hi a'i swyddogion yn drist o weld yr ystadegau WIMD diweddaraf ar gyfer y Rhyl, ond ychwanegodd bod peth newyddion da o ran mân welliannau mewn rhai meysydd a oedd, efallai, wedi eu

colli yn y pennawd cyffredinol oherwydd bod angen gwneud mwy ers cyhoeddi'r set ddiwethaf o ffigurau.

Dyweddodd Ms Greenhalgh bod y canlyniadau wedi ei hysgogi hi a'i chydswyddogion a'u bod yn benderfynol o wella amodau a dyheadau ar gyfer pobl y Rhyl.

Crynhodd Ms Kneale barthau'r Rhyl yn fyr fel a ganlyn:

Incwm – gwelliant ers ffigurau 2014 ond angen camau mwy mewn gwelliant.

Cyflogaeth – fel Incwm, uchod.

Iechyd – roedd ffigurau'r Rhyl yn debyg i rai ledled Sir Ddinbych.

Addysg – bod y ffigurau ar gyfer LSOA 1, 2 a 3 Gorllewin y Rhyl yn arbennig o uchel, ond bod gobaith bod gwelliant go iawn gan fod y ffigurau hyn wedi eu cymryd o Gyfrifiad 2011 (naw mlynedd yn ôl) gyda llawer o fuddsoddiad wedi mynd i'r Rhyl ers hynny.

Mynediad i Wasanaethau – bod y Rhyl yn dal ei thir tra roedd ardaloedd mwy gwledig yn y sir wedi gwaethygu.

Tai – unwaith eto yn bryder yn LSOA 1 a 2 Gorllewin y Rhyl, ond unwaith eto roedd y ffigurau hyn yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011 fell gobeithir nad oedd y darlun cyn waethed mewn gwirionedd.

Diogelwch Cymunedol – ffigurau uchel ar gyfer LSOA 1 a 2 Gorllewin y Rhyl yn arbennig.

Amgylchedd Ffisegol – pryder yn LSOA 2 Gorllewin y Rhyl oherwydd bod aelwydydd mewn perygl o lifogydd.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau, dywedodd y swyddogion:

- Nad oeddynt yn cytuno bod yr holl fuddsoddiad yn y Rhyl wedi bod yn ddi-fudd a bod penodi Ms Nikki Jones (un swyddog) i ddelio gyda chydlyniant cymunedol yn y Rhyl yn talu gwasanaeth gwefus i'r broblem. Roeddynt yn sicrhau'r aelodau bod llawer o swyddogion ymroddedig Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio'n galed ar y Rhyl, nid un swyddog yn unig. Bod Ms Jones yn aelod o'r tîm datblygu cymunedol a phwysleisio bod nifer fawr o'r ffigurau hyn wedi eu cymryd naw mlynedd yn ôl.
- Roeddynt yn cytuno bod gweitho'n agosach gyda Chynghorwyr Tref y Rhyl yn allweddol, ac yn rheswm pam roeddynt wedi mynychu cyfarfod heno.
- Ni allent weld y byddai grŵp 'gorchwyl a gorffen' WIMD yn ateb pan roedd eisoes Grŵp Cyfeirio Lleol y Rhyl a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd yn cynnwys uwch swyddogion Sir Ddinbych a bod Cynghorwyr Cyngor Tref y Rhyl yn darparu dolen, ond byddai Ms Greenhalgh yn mynd â'r awgrym yn ôl i'w ystyried ymhellach.
- Byddent yn hapus yn trefnu bod cynghorwyr tref yn cyfarfod gyda Ms Jones i rannu gwybodaeth a syniadau.
- Roeddynt yn cytuno y byddai symud ymlaen gydag ysbyty newydd y Rhyl yn cael effaith bositif wirioneddol a symudiad i ffwrdd o ganiatáu cartrefi un llofft yn y dref.
- Cyfeiriodd Ms Greenhalgh at yr Arolygydd Heddlu newydd ar gyfer yr ardal, James Keene, yr oedd i gyfarfod ag o yr wythnos nesaf, ac awgrymodd ei fod yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Cyngor Tref i drafod y ffigurau WIMD a sut roeddynt yn cael eu hystyried gan yr Heddlu.
- Nid oedd erioed yn fwriad bod SC2 ar agor drwy gydol y flwyddyn.
- Roedd denu cyllid refeniw yn broblem parhaus ac yn anffodus wedi arwain at doriadau yn y gyllideb a oedd yn cael effaith ar gyrrff trydydd parti megis

Cyngor ar Bpeth a'r Siop Cyngor ar Fudd-daliadau. Roedd nifer o ffrydiau ariannu cyfalaf wedi galluogi'r prosiectau adeiladu arwyddocaol yn y Rhyl.

- I'r gwrthwyneb, dywedodd Ms Greenhalgh ei bod wedi ymweld â Choleg y Rhyl yn ddiweddar ac wedi gweld crefftau yn cael eu dysgu ynghyd â phynciau galwedigaethol.
- Roedd trigolion y Rhyl wedi ymateb i'r ffigurau WIMD gan ddweud nad yw'r Rhyl y maent yn ei hadlewyrchu yn 'teimlo fel y dref rydym yn byw ynddi' mewn gwirionedd, gan awgrymu bod syniad y trigolion yn fwy positif nag y byddai'r ffigurau yn ein harwain i greu.
- Er na allai Cyngor Sir Ddinbych ddyblygu ystadegau WIMD gan nad oedd ganddo'r un mynediad at y dulliau casglu data, gallent weithio ar eu set data eu hunain, a fyddai'n broses araf a graddol ond gwerth chweil i adlewyrchu set gywirach o ganlyniadau.
- Ni fyddent yn caniatáu i ffigurau'r Rhyl gael eu cuddio gan ddarlun ehangach Sir Ddinbych.

Dywedodd y Cyngorydd T. Thomas, yn ei swydd fel aelod o Gabinet Cyngor Sir Ddinbych:

- roedd Gorchymyn Amddiffyn y Cyhoedd (PPO) ar gyfer canol y dref i ddod yn y man, a byddai'n helpu i ddelio gyda'r broblem o ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- roedd gwelliannau i Dai ar y gweill drwy'r broses gynllunio.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Greenhalgh a Ms Kneale am eu presenoldeb cyn iddynt adael y siambr.

PENDERFYNWYD:

- bod Clerc y Dref yn cynhyrchu ystadegau WIMD hanesyddol y Cyngor Tref ei hun er mwyn galluogi ymateb mwy cydgysylltiedig i'r adroddiad diweddaraf.*
- Clerc y Dref i alw cyfarfod penodol ar WIMD ymhen dau fis i hwyluso ddealltwriaeth gynhwysfawr a thrafodaeth ar y mater, gyda chynghorwyr yn cyflwyno eu cwestiynau ymalen llaw.*

57. CADEIRYDD YR IS-BWYLLGOR ASESU RISG – ADRODDIAD SICRHAD

Ymhellach i gofnod rhif 30 cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Tachwedd 2019, ac yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cyngorydd P. Prendergast, cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad y Cyngorydd Prendergast (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gyda diolch i'r Cyngorydd Prendergast.

58. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31AIN RHAGFYR 2019 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2019/20

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dangos perfformiad o gymharu gyda'r gyllideb ac yn adrodd sefyllfa ariannol iach.

PENDERFYNIAD derbyn yr adroddiad.

59. DATGANIAD BLYNYDDOL 2017/18 – CWBLHAU ARCHWILIAD

Ymhellach i gofnod rhif 86 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Tachwedd 2019, adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru yn cwblhau archwiliad 2017/18 y cyngor.

PENDERFYNWYD *derbyn yr ohebiaeth.*

60. CAIS AM LYTHYR CEFNOGAETH AR GYFER CYLLID AR GYFER SYSTEM TELEDU CYLCH CYFYNG

Esboniodd Clerc y Dref bod y bartneriaeth wedi gofyn am lythyr i gefnogi cais am gyllid allanol yr oedd wedi ei wneud yn ddiweddar.

Dywedodd cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y bartneriaeth, y Cynghorydd B. Mellor, bod angen gwariant gwerth £300,000 i adnewyddu camerâu, 20 ohonynt yn y Rhyl, ac y byddai'r camerâu yn cael eu lleoli gan Heddlu Gogledd Cymru i gael y canlyniadau gorau.

Roedd cais wedi ei wneud i gronfa gymunedol fferm wynt am £50,000 a byddai llythyr o gefnogaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn.

PENDERFYNWYD *cymeradwyo'r llythyr a oedd wedi ei ysgrifennu ymlaen llaw gan Clerc y Dref.*

61. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – TALU AC ARDDANGOS ARFAETHEDIG YM MAES PARCIO NEUADD Y DREF

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr ohebiaeth uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) mewn perthynas â hen safle Swyddfa Bost y Goron.

PENDERFYNWYD *cymeradwyo'r cynnig.*

62. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – SAFLEOEDD POSIBL YCHWANEGOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

Ymhellach i gofnod rhif 43 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17eg Gorffennaf 2019, adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn hysbysu o ddau safle lleol a gyflwynwyd i'w hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol nesaf, tir yng Ngwybr Fawr ar Ffordd y Rhyl a thir yn ne-ddwyrain y Rhyl.

Ychwanegodd Clerc y Dref bod ardal o dir a awgrymwyd i dde-ddwyrain y dref wedi ei adnabod yn gynharach gan Gyngor Sir Ddinbych fel yr unig ardal addas ar gyfer mynwent yn y dyfodol, a'u bod yn fwy diweddar wedi dweud nad oedd bellach yn addas.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn gwneud ple arall am fynwent newydd yn y Rhyl a gofyn pam nad oedd yr ardal a grybwyllwyd uchod bellach yn cael ei ystyried yn addas ar gyfer hyn.

63. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – ADOLYGU'R SIARTER RHWNG CYNGOR SIR DDINBYCH A CHYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a chyflwynodd y sylwadau roedd yn awgrymu y dylid eu gwneud.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r holl argymhellion.

64. EITEM ER GWYBODAETH: PEN-BLWYDDI 75 DIWRNOD VE A VJ

Dyweddodd Clerc y Dref bod gwerthwr pabis y Lleng Brydeinig Frenhinol Mr Richard Kendrick yn y broses o drefnu digwyddiad yng Nghlwb Rygbi'r Rhyl ar ddydd Gwener 8fed Mai a gobeithio yn Theatr y Pafiliwn y noson honno i nodi pen-blwyddyn 75 Diwrnod VE.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (CSG), byddai Dydd Calan Mai nesaf y Maer yn ymgorffori thema Diwrnod VE.

Roedd Mr Kendrick hefyd yn ceisio trefnu rhywbeth ar y stryd fawr i gofio Diwrnod VJ ym mis Awst a byddai'n croesawu cymorth gan y Cyngor Tref ar gyfer hyn.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor CSG yn ystyried nodi Diwrnod VJ mewn rhyw ffordd.

65. EITEM ER GWYBODAETH: MYNWENT FFORDD DYSERTH

Adroddodd Clerc y Dref bod Mr Richard Kendrick hefyd wedi ei hysbysu bod Eglwys Tomos Sant, tri llu'r cadetiaid, geidiau'r merched, sgowtiaid, elusennau milwrol a phobl leol wedi dod at ei gilydd i adfer y fynwent.

Roedd cyfarfod i'w gynnal yn y Neuadd Ymarfer am 2pm ar ddydd Sul 16eg Chwefror, ac roedd croeso mawr i gynghorwyr fynychu.

66. EITEM ER GWYBODAETH: FFAIR NADOLIG

Dyweddodd y Cynghorydd T. Thomas bod y ffair a gynhelir fel rheol yn Llandudno wedi ei chanslo ac y byddai'n dod i'r Rhyl ar benwythnos 19eg – 22ain Tachwedd yn gwerthu cynnyrch lleol a chrefftau o safon.

Byddia'r stondinau yn Sussex St, y Stryd Fwr a Queen's St gyda digwyddiad cerddorol i fyny'r grisiau yn neuadd y dref ac y byddai mynediad am ddim i'r ddau beth.

Byddai Cyngor Sir Ddinbych yn cyfrannu £90,000.

Byddai Ardal Gwella Busnes y Rhyl (BID) yn penderfynu ei gefnogi ai peidio ar 18fed Chwefror.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, dywedodd y Cynghorydd Thomas nad oedd y ffair ddiwethaf yn Llandudno wedi bod yn arbennig o lwyddiannus, ac ystyriwyd bod hyn oherwydd y pris mynediad o £4.50 a'r tywydd gwael yn arwain at niferoedd isel.

67. EITEM GAN AELOD: CAIS I WNEUD CYFLWYNIAD I'R CYNGOR TREF

Oherwydd cyfyngiadau amser a'r ffaith bod y cyfarfod wedi bod yn un maith eisoes, awgrymodd y Cynghorydd J. Ball bod yr eitem uchod yn cael ei gohirio i'r cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD gohirio'r eitem uchod tan y cyfarfod nesaf.

68. EITEM GAN AELOD: CAIS I BENODI CYNRYCHIOLYDD I GRŴP BUSNES Y RHYL A BID Y RHYL

Gofynnodd y Cynghorydd T. Thomas am gefnogaeth yr aelodau i'r Cyngor Tref benodi cynrychiolwyr i Grŵp Busnes y Rhyl a BID y Rhyl.

Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau iddynt wrthod gwahoddiad i ail-benodi i'r grŵp busnes ym mis Hydref 2019.

Unwaith eto, oherwydd cyfyngiadau amser, awgrymodd y Cadeirydd bod yr eitem yn cael ei gohirio tan y cyfarfod nesaf, er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i benodi cynrychiolydd i BID y Rhyl.

PENDERFYNWYD bod y gwahoddiad i benodi i Grŵp Busnes y Rhyl yn cael ei wrthod a bod ystyried penodi i BID y Rhyl yn cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf.

69. EITEM GAN AELOD: YMWHYBYDDIAETH O IECHYD MEDDWL ICAN

Cyfeiriodd y Cynghorydd A. R. James at y daflen a ddosbarthwyd yn y cyfarfod mewn perthynas â digwyddiad ymwybyddiaeth a oedd yn cael ei gynnal y diwrnod canlynol rhwng 11am a 3pm yng Nghanolfan ICAN yn y Rhyl (cyn Ganolfan Dewi Sant), Adeiladau Clwyd, Stryd Clwyd.

70. EITEM GAN AELOD: GLANHAU Y GWANWYN

Dywedodd y Cynghorydd K. R. Jones bod sesiynau rheolaidd glanhau'r traeth yn cael eu hystyried i unrhyw ardal a oedd eu hangen rhwng 20fed Mawrth a 13eg Ebrill a gofynnodd i'r aelodau adnabod manau yn eu wardiau nhw.

71. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

72. PROSIECTAU SEILWAITH GWYRDD CANOL Y DREF

Ymhellach i gofnod rhif 121 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Ionawr 2020, cyfeiriodd Clerc y Dref at ebost cyfrinachol a dderbyniwyd gan Ms Nicola Caie o Gyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen), yn amlinellu syniadau prosiectau gwyrddio cychwynol, y ddau gyntaf wedi eu cynnwys yn y

cais ariannu, gyda'r olaf yn cael ei ymgorffori o fewn trefniadau plannu coed yn y dyfodol ledled y Rhyl.

PENDERFYNWYD *derbyn y syniadau drafft.*

73. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd:

Dyddiad: